

Hawdd ei Deall

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu

Mawrth

30

Nodiadau o'r pedwerydd cyfarfod, a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023. Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom.



Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Mark Isherwood AS** – Aelod o'r Senedd
- **Samantha Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Zoe Richards** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru
- **Joe Powell** – Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Julian Hallet** – Cymdeithas Syndrom Down
- **Alexandra Badwi** – Hft
- **Bill Fawcett**
- **Dean Clarke**
- **Debra Cooper**
- **Georgina Barton** – Cyngor Sir Penfro
- **Ishbel Hansen** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe

- **Kathryn Morgan** – Cysylltu Bywydau
- **Kelly Stuart** – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Kirsty Rees** – Swyddfa Mike Hedges AS
- **Lisa Brown** – Gofalwr maeth
- **Lucy O’Leary** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Marg McNeill** – See Around Britain
- **Megan Thomas** – Anabledd Cymru
- **Nadine Tilbury** – Rhwydwaith Cydweithio â Rhieni
- **Nickie Morries** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- **Rhian Stangroom-Teel** – Leonard Cheshire
- **Robert Messenger**
- **Rosie Turner** – Prifysgol Caerdydd
- **Sacha Davies** – Gyrfa Cymru
- **San Leonard** – Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
- **Sarah Frost** – Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- **Sarah Griffiths**
- **Stacey Williams** – Pobl yn Gyntaf Bro Morgannwg



Pobl a ddywedodd nad oeddwn nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- **Mike Hedges** – Aelod o'r Senedd
- **Gwen Anslow** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan

Gwybodaeth am y ddogfen yma



Fersiwn hawdd ei deall yw'r ddogfen hon. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las trwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ynghylch pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar **dudalen 14**.

1. Croeso a chyflwyniadau



Croesawodd Sioned Williams, Aelod o'r Senedd a **Chadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol, bawb i'r cyfarfod.

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.



Gwnaeth Sioned egluro bod newid i'r agenda.

Byddai Marg McNeil yn siarad am rai munudau ar ddechrau'r cyfarfod am ap a gwefan See Around Britain.

2. See Around Britain



Dywedodd Marg wrth y grŵp fod gwybodaeth a lluniau am fannau cyhoeddus yn y DU ar gael ar ap a gwefan See Around Britain.

Mae'r adnodd hwn yn helpu pobl anabl drwy roi gwybodaeth iddynt am ba mor hygyrch y gallai lleoedd fod ar eu cyfer nhw.



Eglurodd Marg fod angen arian ar See Around Britain er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gallu cadw i fynd.



Dywedodd Sioned y byddai'r grŵp yn ysgrifennu at Grŵp Trawsbleidiol y DU ar Anabledd i ofyn iddo helpu See Around Britain i gael yr arian sydd ei angen arno i gadw i fynd.

3. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Eglurodd Sara Pickard o Mencap Cymru mai'r **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** fyddai rhan nesaf y cyfarfod.



Mae **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** yn gyfarfod arbennig y mae'n rhaid i gwmni, grŵp neu sefydliad ei gynnal bob blwyddyn.

Fel arfer, mae rheolau ynghylch yr hyn sy'n gorfod digwydd yn ystod y cyfarfod.

Roedd yn rhaid i'r grŵp bleidleisio er mwyn penderfynu pwy fyddai **cyd-ysgrifenyddion** y grŵp a phwy fyddai'r **Cadeirydd** am y 12 mis nesaf.



Yr **ysgrifennydd** yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Ceir **cyd-ysgrifenyddion** pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr **ysgrifennydd**.



Gofynnodd Sioned a hoffai unrhyw un fod yn **gyd-ysgrifennydd** ar gyfer y grŵp am y 12 mis nesaf.



Dywedodd Sara Pickard o Mencap Cymru a Sam Williams o Anabledd Dysgu Cymru eu bod yn dymuno bod yn **gyd-ysgrifenyddion** eto.



Pleidleisiodd y grŵp o blaid cael Sara a Sam fel **cyd-ysgrifenyddion** y grŵp am 12 mis arall.



Yna, gofynnodd Sara a hoffai unrhyw Aelodau o'r Senedd fod yn **Gadeirydd** ar y grŵp am y 12 mis nesaf.



Dywedodd Sioned Williams ei bod yn dymuno **cadeirio'r** grŵp eto.



Pleidleisiodd Mark Isherwood Aelod o'r Senedd ac aelodau eraill o'r grŵp o blaid cael Sioned fel **Cadeirydd** y grŵp am 12 mis arall.

4. Adroddiad blynyddol

Adroddiad Blynyddol



Dywedodd Sam Williams wrth y grŵp y byddai'n anfon adroddiad blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol at y Senedd ar ôl y cyfarfod.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth ganlynol:



- Sawl cyfarfod a gynhaliwyd gan y grŵp yn ystod y 12 mis diwethaf
- Pwy oedd y bobl a ddaeth i'r cyfarfod
- Beth oedd testun y cyfarfodydd
- Faint o arian y mae'r grŵp wedi'i wario

Adroddiad Blynyddol



Bydd Sam yn anfon yr adroddiad blynyddol at Sioned i'w wirio cyn ei anfon at y Senedd. Yna, bydd yn cael ei gyhoeddi at wefan y Senedd.

5. Cyflwyniad gan grŵp rhieni Pobl yn Gyntaf Bro Morgannwg



Mae Stacey Williams yn rhiant sydd ag anabledd dysgu ac **ADCG**.

Ystyr **ADCG** yw **Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd**. Mae pobl sydd ag **ADCG** weithiau yn ei chael yn anodd canolbwyntio. Neu, efallai eu bod yn canolbwyntio gormod ar rywbeth.



Mae Stacey yn aelod o grŵp rhieni Pobl yn Gyntaf Bro Morgannwg.



Soniodd Stacey am y profiad o fod yn rhiant ag anabledd dysgu.



Dywedodd fod angen i weithwyr cymdeithasol ddeall sut i gefnogi rhieni ag anableddau dysgu.



Dywedodd fod angen mwy o amser ar rieni weithiau i ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt.

Mae cyfarfodydd â gweithwyr cymdeithasol yn aml yn frysiog iawn. Nid oes digon o amser i fynd drwy bopeth.



Mae angen sicrhau bod y wybodaeth yn fwy hygyrch, fel y gall rhieni ag anableddau dysgu ddeall popeth.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eglurodd Sam Williams ein bod yn aros i Lywodraeth Cymru ddosbarthu canllawiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ynghylch sut i gefnogi rhieni ag anableddau dysgu.



Cafodd y canllawiau hyn eu hysgrifennu ar gyfer Llywodraeth Cymru gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol De Cymru.



Rydym yn aros i gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch pryd y bydd y canllawiau'n barod i'w dosbarthu.

6. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau, a rhannodd rhai eu syniadau.



Dywedodd Wayne Crocker o Mencap Cymru fod ymchwil yn cael ei wneud cyn y cafodd y canllawiau ar gefnogi rhieni ag anableddau dysgu eu hysgrifennu.



Roedd yr ymchwil hwnnw'n edrych ar faint o rieni ag anableddau dysgu yng Nghymru oedd wedi gweld eu plant yn cael eu cymryd i ofal, a'r rhesymau am hynny.



Cytunodd Sam i ofyn i Lywodraeth Cymru am linc i'r ymchwil hwnnw, fel y gallai aelodau'r grŵp ei ddarllen.



Yn ogystal, gofynnodd Wayne a yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw arian er mwyn lleihau'r risg bod rhieni ag anableddau dysgu yn gweld eu plant yn cael eu cymryd i ofal.



Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn y cwestiynau canlynol:

- Pryd fydd y canllawiau ar gefnogi rhieni ag anableddau dysgu yn cael eu dosbarthu?
- Faint o arian sydd ar gael i leihau'r risg bod rhieni ag anableddau dysgu yn gweld eu plant yn cael eu cymryd i ofal?

7. Unrhyw fater arall, a syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol



Dywedodd Sioned wrth y grŵp fod Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn edrych ar ba mor hygyrch yw'r addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc anabl yng Nghymru.



Bydd y Pwyllgor yn chwilio am dystiolaeth ar y mater hwn cyn bo hir. Efallai y bydd aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol am gysylltu â'r Pwyllgor i rannu eu profiadau.



Gofynnodd Sioned i aelodau'r grŵp a oedd ganddynt unrhyw syniadau am bethau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.



Dyma rai o'r syniadau y soniodd pobl amdanynt:

- Cymorth ym maes tai
- Gofal plant ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Profiadau pobl ag anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol
- Ffyrdd iach o fyw ar gyfer pobl ag anableddau dysgu



Bydd Sioned, Sam a Sara yn siarad ag aelodau eraill y grŵp am ddyddiadau a syniadau ar gyfer y pedwar cyfarfod nesaf.



Byddant yn rhoi gwybodaeth i bawb am y cyfarfod nesaf cyn gynted â phosibl.



Diolchodd Sara i bawb a siaradodd yn ystod y cyfarfod.



Dywedodd Sam y byddai nodiadau hawdd eu darllen ynghylch y cyfarfod ar gael ar wefan Anabledd Dysgu Cymru a gwefan y Senedd pan fyddant yn barod.



Gallwch ddod o hyd i holl agendâu'r Grŵp Trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma:

<https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/>



Os oes gan unrhyw un syniadau am bethau pwysig i'w trafod yn y cyfarfod nesaf, gallwch anfon neges e-bost at Sam Williams:

samantha.williams@ldw.org.uk; neu Sara Pickard: SaraE.Pickard@mencap.org.uk.



Diolchodd Sioned, Sara a Sam i bawb am ddod i'r cyfarfod.

Geiriau anodd

Cadeirydd

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn gyfarfod arbennig y mae'n rhaid i gwmni, grŵp neu sefydliad ei gynnal bob blwyddyn.

Fel arfer, mae rheolau ynghylch yr hyn sy'n gorfod digwydd yn ystod y cyfarfod.

Ysgrifennydd neu gyd-ysgrifennydd

Yr ysgrifennydd yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Ceir cyd-ysgrifenyddion pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.

ADCG

Ystyr ADCG yw Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Mae pobl sydd ag ADCG weithiau yn ei chael yn anodd canolbwyntio. Neu, efallai eu bod yn canolbwyntio gormod ar rywbeth.